# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Agenda (SLC (3)-05-08)""

**Dyddiad: 04 Mawrth 2008**
**Amser : 8.15am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd**

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**
**Eitem 2: Offerynnau ac offerynnau drafft na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2.**
**Eitem 2.1: Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)**

**SLC113 - Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2008**

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 6 Chwefror 2008. Fe'u gosodwyd ar 7 Chwefror 2008. Yn dod i rym ar 3 Mawrth 2008.

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhagnodi unedau cynhyrchu ar gyfer asesu capasiti cynhyrchiol tir amaethyddol a leolir yng Nghymru (at ddibenion y darpariaethau olynu yn Neddf Daliadau Amaethyddol 1986) ac yn gosod y swm sydd i gael ei ystyried fel yr incwm blynyddol net o bob uned o'r fath am y flwyddyn o 12 Medi 2007 i 11 Medi 2008 gan gynnwys y dyddiadau hynny.

**SLC114 - Rheoliadau Gorchmynion Ad-dalu Rhent (Darpariaethau Atodol) (Cymru) 2008**

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 6 Chwefror 2008. Fe'u gosodwyd ar 7 Chwefror 2008. Yn dod i rym ar 4 Mawrth 2008.

O dan Rannau 2 a 3 o Ddeddf Tai 2004 gall awdurdodau tai lleol wneud cais i dribiwnlys eiddo preswyl i orchymyn ad-daliad rhent gael ei wneud mewn cysylltiad â Thai Amlfeddiannaeth a drwyddedwyd o dan neu dŷ y mae'n ofynnol iddo gael ei drwyddedu o dan Ran 2 ond nad yw wedi'i drwyddedu. Mae'r Rheoliadau yn pennu'r dibenion y ceir defnyddio arian a dderbynnir gan awdurdod tai lleol o dan Orchymyn Ad-dalu Rhent ar eu cyfer a hefyd yn nodi bod symiau nas defnyddir at ddiben a bennir yn y Rheoliadau i gael eu talu i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru.

**SLC115 - Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2008**

Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 19 Chwefror 2008. Fe'i gosodwyd ar 22 Chwefror 2008. Yn dod i rym ar 18 Mawrth 2008.

-yn pennu'r dangosyddion perfformiad a ddefnyddir i fesur perfformiad Awdurdod Tân ac Achub.

**SLC116 - Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Addasu Cyfrifiadau Angenrheidiol) (Cymru) 2008**

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 22 Chwefror 2008. Fe'u gosodwyd ar 25 Chwefror 2008. Yn dod i rym ar 27 Chwefror 2008.

-diwygio cydrannau'r cyfrifiadau a nodir yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer sut y mae awdurdodau lleol a phrif awdurdodau praeseptio i gyfrifo'u hanghenion cyllideb a'u treth gyngor.

**SLC117 - Rheoliadau Gwaith Stryd (Cosbau Penodedig) (Cymru) (Diwygio) 2008**

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 22 Chwefror 2008. Fe'u gosodwyd ar 25 Chwefror 2008. Yn dod i rym ar 12 Mai 2008.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gwaith Stryd (Cosbau Penodedig) (Cymru) 2008. Yn benodol mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliad 5(3) o ran y testun Cymraeg yn unig, gan roi yn lle'r gair "brintiadwy" y gair "brintiedig".

**Eitem 3: Offerynnau y bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i dalu sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.3**
**Eitem 3.1: Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)**

**SLC114 - Rheoliadau Gorchmynion Ad-dalu Rhent (Darpariaethau Atodol) (Cymru) 2008**

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 6 Chwefror 2008. Fe'u gosodwyd ar 7 Chwefror 2008. Yn dod i rym ar 4 Mawrth 2008 -

"manylion fel yr uchod."

**Eitem 4: Craffu ar y "Cynnig ar gyfer Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2008"**

**Eitem 5: Unrhyw fater arall**
**Eitem 6: Dyddiad y cyfarfod nesaf**